# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

18 Chwefror 2019

## SL(5)317 – Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r meini prawf cymhwystra presennol ar gyfer cael cinio ysgol a llaeth am ddim ("prydau ysgol am ddim") drwy nodi, o 1 Ebrill 2019 ymlaen, bod teuluoedd sy'n cael Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu hincwm blynyddol a enillir yn £7,400 neu lai.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer amddiffyniad trosiannol i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn colli ei gymhwystra am brydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg 1996

**Fe'u gwnaed ar:** 5 Chwefror 2019

**Fe'u gosodwyd ar:** 6 Chwefror 2019

**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2019